Common Voice Cymraeg

Project Common Voice yw'r ymgais i greu data rhydd ar gyfer adnabod lleferydd, fel bod peiriannau yn gallu deall yr hyn rydych yn ei ddweud wrthyn nhw er mwyn ymateb.

Mae hyn yn galluogi darparu rhaglenni a pheiriannau ar gyfer y deillion a'r anabl, cynorthwywyr personol, llywio mewn ceir, ac ati.



Mae'r rhain eisoes yn bodoli yn Saesneg, yr her nawr yw eu cael yn Gymraeg.

Rydym yn chwilio am bobl sy'n siarad Cymraeg o bob rhan o Gymru, a'r byd i gyfrannu. Gorau po fwyaf o amrywiaeth mae'r peiriant yn ei gael, y gorau y bydd yn gallu eu dehongli.

Hwn yw un o'r cyfleoedd gorau sydd ganddon ni i osod sylfaen gref ar gyfer defnydd y Gymraeg yn nhechnoleg y dyfodol.

moz://a

voice.mozilla.org/cy/new

Uned Technolegau Iaith

Canolfan Bedwyr

Prifysgol Bangor

@techiaith

Meddal.com

@MeddalCom

Common Voice Cymraeg



voice.mozilla.org/cy/new

Common Voice Cymraeg



Gan fod offer Common Voice ar wefan ac ap mae modd cyfrannu yn unrhyw le ac ar unrhyw bryd. Mae modd cyfrannu drwy ddarllen brawddegau a phytiau a thrwy ddilysu lleisiau pobl eraill. Mae'r ddwy elfen yn bwysig iawn.

Mae modd defnyddio eich cyfrifiadur eich hun os oes ganddo feicroffon a chlustffonau/uchelseinydd neu yn gallu cysylltu rhai iddo. Mae modd hefyd defnyddio'r ap ar gyfer iPad neu iPhone diweddar.

Mae Common Voice Cymraeg yn bartneriaeth rhwng y Mozilla Foundation, gwneuthurwr y porwr Firefox, Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor a Meddal.com.

.

Cyfrannwch eich llais rwan ar gyfer defnydd Cymraeg y dyfodol.

.Gwefan Common Voice



Siarad

Gallwch Siarad neu recordio ar y wefan drwy glicio ar Siarad i fynd i dudalen recordio. Yma, gyda defnydd meicroffon eich tabled neu liniadur, gallwch ddarllen y clipiau sy'n cael eu cyfnnig i chi eu darllen. Mae modd i chi wrnado ar y clipiau i sicrhau fod popeth yn iawn, ac wedyn mynd ymlaen i'r nesaf.



Gwrando

Cliciwch ar y saeth werdd i fynd i'r dudalen Gwrando. Yma byddwch yn gallu gwrando ar clipiau o leisiau siaradwyr eraill a dilysu eu bod wedi darllen yn gywir ac nad oes nam technegol ar y recordiad.

Mae Siarad a Gwrando yn holl bwysig i lwyddiant y fenter oherwydd bod cael digonedd o ddata cywir yn mynd i olygu fod y dechnoleg yn fwy llwyddiannus yn dehongli yr hyn mae siaradwyr naturiol yn ei ddweud.